Annwyl Gwsmer

# Ymgysylltu â'n cwsmeriaid – Rhannu eich barn

## Newidiadau i Wasanaeth Allgymorth Y Fflint
## Yn cael effaith ar Wsanaethau Allgymorth Willaston, Neston a Thornton Hough

Mae'r postfeistr sy'n gweithredu'r gwasanaethau allgymorth uchod a gwasanaeth symudol Y Fflint wedi adolygu eu gallu i redeg y gwasanaethau hyn, ac rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod ein bod yn gwneud rhai newidiadau i'r ddau wasanaeth allgymorth. Gyda'n cytundeb ni, mae'r postfeistr wedi penderfynu adleoli gwasanaethau Allgymorth Neston, Thornton Hough a Willaston i wasanaeth symudol Y Fflint. Bydd y newidiadau hyn yn dechrau o'r wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 2 Mehefin 2025.

Wedi hynny, bydd y gwasanaeth allgymorth sy'n cael ei redeg o Swyddfeydd y Cyngor, Brook Street, Neston, Swydd Gaer CH64 9XJ yn symud i'r maes parcio yn yr un lleoliad a bydd ganddo oriau gweithredu newydd ar ddydd Mawrth a dydd Gwener. Yn yr un modd, bydd y gwasanaeth allgymorth a gynhelir o Neuadd y Pentref, Manor Road, Thornton Hough, Cilgwri, CH63 1JD hefyd yn symud i'r maes parcio yn yr un lleoliad a bydd ganddo oriau gweithredu newydd ar ddydd Gwener. Yn olaf, bydd y gwasanaeth allgymorth a gynhelir o'r Neuadd Goffa, The Green, Willaston, Neston, Swydd Gaer, CH64 2XR yn symud i'r maes parcio cyfagos yn Pollard Inn, Sgwâr y Pentref, Willaston, CH64 2TU a bydd ganddo oriau gweithredu newydd ddydd Mawrth a dydd Gwener. Am fanylion manwl, cyfeiriwch at y Tabl Gwybodaeth Gwasanaeth yn ddiweddarach yn y llythyr hwn.
Yn ogystal, bydd y gwasanaeth Allgymorth presennol sy'n cael ei redeg o'r Neuadd Goffa, The Green, Willaston, Neston, Swydd Gaer, CH64 2XR Yn adleoli gerllaw i'r cerbyd symudol gydag oriau agor newydd, sef dydd Mawrth 3 Mehefin 2025 am 11:45 a bydd yn gweithredu o'r maes parcio yn Pollard Inn, Sgwâr y Pentref, Willaston, CH64 2TU.

Er mwyn gweithredu'r newidiadau hyn, bydd rhai newidiadau'n cael eu gwneud i oriau agor cyfredol gwasanaethau Symudol Neuadd Llaneurgain. Maes Glas. Sychdyn, Helygain, Pentre Cythrel (New Brighton), Rhosesmor, Mancot, Mynydd Isa, Licswm, Rhyd-y-mwyn, Nannerch, Drury, Sandycroft, Llanferres, Cilcain, Higher Kinnerton, Eryrys, Saltney Ferry, Llanarmon-yn-Iâl, Treuddyn, Llanbedr, Pwll-glas a Llandegla. Daw'r newidiadau hyn i rym yn yr wythnoas sydd yn dechrau ddydd Llun 2 Mehefin 2025.

Mae manylion am y newidiadau i'r gwasanaethau Swyddfa Bost Symudol ar ddiwedd y llythyr hwn. Hefyd, caiff posteri eu gosod yn lleol fel bod cwsmeriaid yn gwybod am y newid. Os bydd rhaid newid y dyddiadau am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod yn lleol er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

**Hoffem glywed gennych**
Am ein bod yn awyddus i wneud y newid i'r gymuned yn Willaston, Neston a Thornton Hough cyn gynted â phosibl, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynlluniau. Mae adfer y gwasanaeth fel gwasanaeth allgymorth Symudol yn benderfyniad masnachol i Swyddfa'r Post Cyf ac felly nid ydym yn chwilio am ymateb i'r agwedd hon ar y newid.Fodd bynnag, byddem yn croesawu awgrymiadau am agweddau penodol ar y newid a allai fod o fudd i gwsmeriaid, yn enwedig ynglŷn â'r canlynol:

- Pa mor addas, yn eich barn chi, yw'r lleoliad newydd a pha mor hawdd yw cyrraedd yno?

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

- A oes gennych unrhyw sylwadau am y dyddiau a’r oriau agor arfaethedig?

Byddwn yn derbyn sylwadau tan **Dydd Gwener 13 Mehefin 2025.** Ni fyddwn yn rhoi ymateb unigol i chi, ond bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniadau terfynol.

Gallwch rannu eich sylwadau am ailagor y gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn trwy ein holiadur hawdd a hwylus ar-lein yn postofficeviews.co.uk.Wrth fynd i mewn i’r wefan, gallwch ddefnyddio’r ffwythiant chwilio i gael hyd i’r ymgysylltiad â'r gangen hon – naill ai yn ôl enw’r gangen, y cod post neu’r cod unigryw ar gyfer y gangen: **332614**

**Sut i rannu eich barn:**
**Hyb Ymgynghori (postofficeviews.co.uk)**
comments@postoffice.co.uk
Ffoniwch: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55
FREEPOST Your Comments – D.S. Hwn yw'r cyfeiriad post llawn. Mae eitemau a anfonir drwy Freepost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd pen y daith, ac felly dylech ganiatáu digon o amser.

**Eisiau rhoi eich barn i ni yma nawr? Sganiwch yma.**
Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa apiau.

Byddwn yn gosod posteri yn lleol i rannu’r newyddion da â’n cwsmeriaid. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu’r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a’ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy’n digwydd i’r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Unwaith y cwblheir y cynlluniau, byddwn yn gosod poster yn lleol a rhoddir gwybodaeth ar ein Canolfan Ymgynghori i amlinellu’r prif sylwadau a dderbyniwyd a’n hymateb iddynt. Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posteri’n cael eu gosod yn lleol er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae ein hymgysylltu yn unol â’n Hegwyddorion Ymgysylltu â’r Gymuned. Mae detholiad sy’n ymwneud ag Ymgysylltu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi’r gwasanaeth newydd hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

*Carol Williams*

**Carol Williams**
**Rheolwraig Newidiadau Ardal**

# Manylion am y Gwasanaethau Symudol newydd:

| Gwasanaeth Symudol Willaston | Gwasanaethau |
| --- | --- |
| Pollard Inn<br>Sgwâr y Pentref<br>Willaston<br>CH64 2TU | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Dydd Mawrth 11:45 – 13:00<br>Dydd Gwener 14:30 – 16:00 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |
| **Cyrraedd yno** | |
| Tua 90 metr o Wasanaeth Allgymorth Swyddfa'r Post Willaston, ar hyd tir amrywiol ei natur.<br>Bydd parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y cerbyd symudol wedi ei barcio. | |

| Gwasanaeth Symudol Thornton Hough | Gwasanaethau |
| --- | --- |
| Maes Parcio Neuadd y Pentref<br>Manor Road<br>Thornton Hough<br>CH63 1JB | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Dydd Gwener 13:15 – 14:15 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |
| **Parcio** | |
| Bydd parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y cerbyd symudol wedi ei barcio. | |

| Gwasanaeth Symudol Neston | Gwasanaethau |
| --- | --- |
| Maes Parcio Swyddfeydd y Cyngor<br>Brook Street<br>Neston<br>CH64 9AR | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Dydd Mawrth 09:30 – 11:30<br>Dydd Gwener 09:30 – 12:30 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |
| **Parcio** | |
| Bydd parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y cerbyd symudol wedi ei barcio. | |

# Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol:

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| Gwasanaeth Symudol Drury<br>Y tu allan i Siop Fferm Lester, 76 Lôn Drury, Bwcle, Sir Y Fflint, CH7 3DX | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Llun 13:45 – 14:15<br>Dydd Mercher 10:45 – 11:15 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Iau 10:30 – 11:00 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| Gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol Pentre Cythrel (New Brighton)<br>Canolfan Gymuned Pentre Cythrel (New Brighton), Heol Moel Fama, Pentre Cythrel, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6QX | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Llun 13:00 – 13:30 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Mawrth 14:00 – 14:30 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| Gwasanaeth Symudol Mancot<br>Llyfrgell Gymuned Mancot, Lôn Mancot, Mancot, Glannau Dyfrdwy, CH5 2AH | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Mercher 15:30 – 16:00 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Iau 15:15 – 15:45 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| Gwasanaeth Symudol Saltney Ferry<br>Maes Parcio'r Saltney Tavern, Y Stryd Fawr Saltney, Caer, CH4 8SQ | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Mercher 13:30 – 14:15 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Iau 13:15 – 14:00 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| Gwasanaeth Symudol Llanferres<br>Cilfan Eglwys Sant Berres, Cae Derwen, Llanferres, Yr Wyddgrug, CH7 5SX | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Mawrth 13:30 – 14:00 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Mercher 09:30 – 10:00 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Treuddyn**<br>**Cilfan Ffordd -y-Rhos, Treuddyn, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint, CH7 4NJ** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Llun 10:15 – 10:45<br>Dydd Iau 13:45 – 14:30 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Mercher 15:00 – 15:30 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Rhyd-y-mwyn**<br>**Gorsaf Gwasanaethau Rhyd-y-mwyn, Ffordd Dinbych, Rhyd-y-mwyn, Yr Wyddgrug, CH7 5HE** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Gwener 13:15 – 14:00 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Llun 13:30 – 14:45 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Maes-glas**<br>**Eglwys y Drindod Sanctaidd, Rhodfa** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Gwener 09:30 – 10:15 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Llun 09:15 – 09:45 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Pwll-glas**<br>**Maes Parcio Siop Pwll-glas, Neuadd Y Pentref, Pwll-glas, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2PB** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Mawrth 09:30 – 11:00 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Mercher 11:00 – 12:00 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth symudol Licswm**<br>**Y tu allan i Dafarn y Crown, The Greenways, Licswm, Treffynnon, Sir Y Fflint, CH8 8NQ** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Gwener 10:45 – 11:30 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Llun 10:00 – 10:30 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| Gwasanaeth Symudol Sandycroft<br>Y tu allan i Gapel y Methodistiaid, Evansleigh Drive, Sandycroft, Glannau Dyfrdwy, CH5 2PG | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Mercher 14:30 – 15:15 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Iau 14:15 – 15:00 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| Gwasanaeth Symudol Higher Kinnerton<br>Y maes parcio y tu allan i Neuadd Y Pentref Kinnerton, Lôn Bennett, Higher Kinnerton, Sir y Fflint, CH4 9AR | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Mercher 11:30 – 12:30 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Iau 11:15 – 12:15 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| Gwasanaeth Symudol Eryrys<br>Y tu allan i Ganolfan Dewi Sant, Ffordd Y Pentref, Eryrys, Yr Wyddgrug, CH7 4DA | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Llun 09:30 – 10:00 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Mercher 15:45 – 16:15 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| Gwasanaeth Symudol Cilcain<br>Maes Parcio Neuadd y Pentref Cilcain, Y Sgwâr, Cilcain, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint, CH7 5NN | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Mawrth 14:30 – 15:45<br>Dydd Iau 09:30 – 10:45 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Llun 11:30 – 12:45 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| Gwasanaeth Symudol Llandegla<br>Maes Parcio'r Siop Gymuned, Allt yr Efail, Llandegla, Wrecsam, LL11 3AW | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Iau 12:15 – 13:00 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Mercher 13:00 – 13:45 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Helygain**<br>**Maes Parcio Neuadd Y Pentref, Helygain, Treffynnon, Sir Y Fflint, CH8 8BU** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Gwener \| 15:15 – 15:45 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Llun \| 16:00 – 16:30 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Sychdyn**<br>**Maes Parcio Neuadd Goffa Sychdyn, Yr Heol Fawr, Sychdyn, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint, CH7 6ED** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Llun \| 14:30 – 15:15 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Mawrth \| 16:00 – 16:30 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Llanarmon-yn-Iâl**<br>**Maes Parcio Raven Inn, Ffordd Rhiw Iâl, Llanarmon-yn-Iâl, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint, CH7 4QE** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Mawrth \| 12:00 – 12:45<br>Dydd Iau \| 11:15 – 12:00 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Mercher \| 14:00 – 14:45 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Rhosesmor**<br>**Maes Parcio Neuadd y Pentref Rhosesmor, Rhosesmor, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint, CH7 6PJ** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Gwener \| 14:15 – 15:00 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Llun \| 15:00 – 15:45 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Neuadd Llaneurgain**<br>**Y tu allan i Dafarn y Mwnci, Ffordd Y Pentref, Neuadd Llaneurgain, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint, CH7 6HS** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Llun \| 15:30 – 16:00 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Iau \| 16:00 – 16:30 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Nannerch**<br>**Y tu allan i Dafarn y Cross Foxes, Ffordd Y Pentref, Nannerch, Yr Wyddgrug,Sir Y Fflint, CH7 5RD** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Gwener: 11:45 – 12:30 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Llun: 10:45 – 11:15 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Llanbedr**<br>**Maes Parcio Neuadd Y Pentref, Ffordd Llandyrnog, Llanbedr, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1UP** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Mawrth: 11:15 – 11:45 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Mercher: 10:15 – 10:45 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol cyfredol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Mynydd Isa**<br>**Llyfrgell a Chanolfan Gymuned Mynydd Isa, Y Maes Parcio, Rhodfa Mercia, Mynydd Isa,**<br>**Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint, CH7 6UH** | |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Dydd Llun: 11:15 – 12:15<br>Dydd Mercher: 09:30 – 10:30<br>Dydd Iau: 14:45 – 15:45 | **Yr oriau agor newydd**<br>Dydd Mawrth: 14:45 – 15:45<br>Dydd Iau: 09:15 – 10:15 |

**<u>Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau  i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)</u>**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviewsco.uk*

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

*Byddwn yn* **<u>Ymgysylltu</u>** *– pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:*

- Ailagor cangen a gaewyd mewn lleoliad newydd
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol pan fydd newidiadau i'r leoliad man gwasanaeth Swyddfa'r Post
- Adleoli cangen pan fo risg y gallai'r gwasanaeth gael ei golli (e.e. problem gyda'r adeilad). Mae hyn er mwyn osgoi neu wneud yn llai tebygol colli gwasanaeth i gymuned lle cafodd lleoliad arall i gangen ei nodi2  a lle nad oes unrhyw ddirywiad o ran cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post (wrth fynd i mewn i'r adeilad a'r tu mewn iddo).

Er y bydd y penderfyniad i fwrw ymlaen wedi ei wneud eisoes, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid megis mynediad i'r adeilad a'r drefn y tu mewn. Rhoddwn bedair wythnos o rybudd, neu, os nad yw hynny'n bosibl, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y gallwn.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol3, y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol4, i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau cyrchu yn y gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef  cyrff eirioli statudol annibynnol y defnyddwyr.***

<u>Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:</u>
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda,  fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod eirioli priodol i ddefnyddwyr (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff eirioli i ddefnyddwyr yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

| | | |
|---|---|---|
| **Postofficeviews.co.uk** | **Ffôn:** | **03452 66 01 15** |
| **Comments@postoffice.co.uk** | **Ffôn testun:** | **03457 22 33 55** |
| **FREEPOST Your Comments** | | |

2 Pan fo risg y gallai'r gwasanaeth gael ei golli , er mwyn osgoi neu ei wneud yn llai tebygol fod gwasanaeth i gymuned yn cael ei golli gall y bydd rhaid i ni wneud penderfyniad masnachol i adleoli cangen Swyddfa'r Post. Os felly, ni fyddwn yn ymgynghori ar adleoli, ond byddwn yn dilyn y broses ymgysylltu ac yn ceisio adborth ar drefniadau mynediad i'r adeilad a'r drefn y tu mewn.

3 Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Llywodraeth Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Plwyf neu Gymuned.

4 Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir pawb y cyfeirir atynt yn 3 a 4 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn nhw,  fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.